**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Arolwg y Cynulliad o'r Iaith Gymraeg – Cynllunio dyfodol addysg gydol oes cyfrwng Cymraeg a dwyieithog**

## Cefndir

Yn dilyn cyhoeddi "Cenhadaeth a Gweledigaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2000-2005" sy'n amlinelli targedau ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, bu'r Bwrdd mewn trafodaethau gyda nifer o gyrff a sefydliadau addysgol er mwyn cyrraedd consenswս ynghylch y camau nesaf o ran cyrraedd y targedau a nodwyd. Mae'n amserol felly ein bod yn ystyried anghenion addysg gydol oes cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn cyfnod pan fo'r Cynulliad newydd ymgynghori ar y ddogfen ymbaratoi "Y Wlad sy'n dysgu"ac yn ymgymryd a'i arolwg o'r Iaith Gymraeg. Mae'r Bwrdd eisoes wedi cyflwyno ymateb i'r "Wlad sy'n Dysgu" at sylw'r Cynulliad a hefyd wedi cyflwyno tystiolaeth gerbron y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar ddarparu lleoedd mewn ysgolion. Dylid darllen y papur ffocws hwn ochr yn ochr â'r dogfennau hynny, gan gofio bod ein dogfen "Cenhadaeth a Gweledigaeth" yn gosod y cyd-destun ar gyfer ein sylwadau.

## Data

Ym mis Ionawr 2000,cyfanswm nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg oedd 55,000, sef 18 y cant o'r holl leoedd cynradd, ac mae bron i 23 y cant o ysgolion uwchradd Cymru yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu ar gyfer o leiaf hanner eu pynciau sylfaen.Yn y cyfnod cyn-ysgol ceir darpariaeth mewn ysgolion a chylchoedd meithrin, gydag o leiaf 935 o gylchoedd cyfrwng Cymraeg yn bodoli yn y sector gwirfoddol. Gyda 75% o blant tair oed Cymru yn yr ysgol yn rhan amser, mae'n amlwg mai yn ystod y blynyddoedd cynnar ceir y cyfle orau i gyflwyno sgiliau dwyieithog i unigolion ar gyfer eu gyrfa addysg gydol oes.

Rhaid pwysleisio pwysigrwydd dilyniant ieithyddol mewn addysg statudol a thu hwnt, a theg yw nodi mai ychydig o gyfle sydd i ddisgyblion sydd wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg/ dwyieithog hyd at 16 oed i dderbyn addysg bellach ac uwch trwy gyfrwng y Gymraeg, ac anghyson iawn yw'r ddarpariaeth.Gyda hyn oll mewn golwg, rhaid mynd ati yn awr i adnabod anghenion cynllunio ein system addysg, a hynny ar gyfer cenedl ddwyieithog.

## Heriadau

Ceir datganiad clir gan y Cynulliad yn "Y Wlad sy'n Dysgu" sy'n nodi ei ymrwymiad yn GwellCymru.com i "ddangos cynnydd gwirioneddol tuag at wneud dwyieithrwydd yn norm" a

hefyd i gynnal "arolwg polisi o'r iaith Gymraeg a'i effaith ar addysg a hyfforddiant". Gyda hyn mewn golwg, dymuna'r Bwrdd gyflwyno'r papur hwn gerbron y Cynulliad, ond cyn cynnig awgrymiadau ar gyfer blaen gynllunio, dylid gosod y cyd-destun o ran rhai o'r heriadau y mae'r iaith Gymraeg yn eu hwynebu, a hynny o safbwynt addysgu a dysgu:

1. Mae 40% o'r plant sydd wedi derbyn eu haddysg gynradd yn dilyn "trac mamiaith" yn dechrau eu haddysg uwchradd fel siaradwyr Cymraeg ail iaith gan ddilyn cwricwlwm cyfrwng Saesneg.Mae angen cynyddu dilyniant yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/ dwyieithog.
2. Ni cheir continuwm ieithyddol yn ein system addysg - ceir dwy raglen ar wahân, sef Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg fel ail iaith. Nid yw'n hawdd i drosglwyddo o'r "trac" ail iaith i'r un mamiaith.
3. Mae darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn dibynnu yn helaeth ar Mudiad Ysgolion Meithrin, ac er bod dosbarthiadau cyn-ysgol hefyd yn bodoli mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ni cheir digon o ddarpariaeth ymhob un ardal o Gymru. Er enghraifft, mae darpariaeth MYM wedi ei chyfyngu o ran addysgofal i ddarpariaeth rhan amser yn ystod y dydd.
4. Ni cheir lawer o ddarpariaeth addysg bellach ac uwch cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ac mae diffyg dilyniant ieithyddol ar ôl 16.
5. Nid yw plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig bob amser yn derbyn cyfle cyfartal o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg sy'n cyd-fynd â'u hanghenion dwyieithog.
6. Er bod y gyfradd geni yn disgyn a niferoedd plant yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg yn disgyn, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dal i dyfu ar y cyfan, ac mae'r galw am fwy o ysgolion yn parhau.
7. Mae addysg cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu yng Nghymru oherwydd y galw o du'r rheini a dylanwad cadarnhaol nifer o Awdurdodau Addysg Lleol, a cheir enghreifftiau o flaengynllunio strategol yng Nghynllluniau Addysg Gymraeg yr AALl.Serch hynny, datblygodd addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn ffordd ad-hoc, ac mae'r AALl wedi datblygu eu polisïau o weithredu mewn ffyrdd sy'n golygu bod y termau sy'n disgrifio a diffinio'r ysgolion o ran categorïau ieithyddol yn amrywio o ardal i ardal.
8. Ceir diffyg adnoddau /deunyddiau addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, yn enwedig meddalwedd TCHG, a cheir bylchau amlwg ym maes addysg ôl 16.

Yn ogystal â'r materion uchod, ceir nifer o anghenion sydd yn cael eu nodi ymhellach yn y ddogfen hon .

**Addysg Cyn-ysgol a Datblygu Dwyieithrwydd Cynnar**

Ymhlith yr ieuengaf, bydd y camau a gymerwyd yn ddiweddar gan y Gweinidog Addysg yn y Cynulliad i ddarparu addysg feithrin i bob plentyn ar ôl cyrraedd tair oed yn cyfrannu at feithrin sgiliau dwyieithog, ar yr amod y bydd y ddarpariaeth hon ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cymuned.Mae'r Blynyddoedd Cynnar yn allweddol bwysig o ran cynnig cyfle realistig i

bob plentyn i ddod yn ddwyieithog. Er mwyn cyrraedd y nod hwn dylid:

- Sefydlu Canolfannau Blynyddoedd Cynnar Dwyieithog - mae'r Bwrdd yn croesawu nod y Cynulliad i sefydlu o leiaf un ganolfan o'r fath ym mhob awdurdod erbyn 2002. Dylent gael eu sefydlu mewn partneriaeth â chyrff megis MYM a chael eu gweithredu fel adnoddau cwbl ddwyieithog o'r dechrau.
- Sicrhau darpariaeth ddwyieithog wrth gynllunio "gofal parhaus" ledled Cymru. A chofio ein bod yng nghyfnodau cynllunio'r datblygiadau hyn yng Nghymru, ceir cyfle yn nawr i gael system lle mae pob plentyn yng Nghymru'n cael profiad o ddarpariaeth gofal parhaus cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Bydd yn rhaid sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i brofi gofal dwyieithog yn ei ardal neu gymuned leol.
- Darparu rhywfaint o addysg drochi cyfrwng Cymraeg i bob plentyn yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd cynnar, a hynny ar wahanol lefelau o ran amser yn unol â dymuniadau'r rheini. Cytunwyd ar hyn fel nod ar gyfer y dyfodol yn is-bwyllgor y Gymraeg o'r Pwyllgor Blynyddoedd Cynnar. A chofio bod disgyblion yn gallu dysgu ieithoedd yn well pan ydynt dan bump oed, dyma'r cyfnod gorau i greu plant ifanc dwyieithog, a hynny oherwydd eu gallu o ran caffaeliad iaith yn y blynyddoedd cynnar.
- Sicrhau bod darpariaeth cyn-ysgol yn cyfrannu tuag y broses o gynorthwyo rhieni sydd yn siaradwyr Cymraeg ond nad ydynt wedi trosglwyddo'r iaith i'w plant eto.
- Sicrhau bod rieni nad ydynt yn ddwyieithog yn derbyn gwybodaeth am fanteision dwyieithrwydd ar gyfer eu plant.

**Y Cwricwlwm Cenedlaethol a Dilyniant Ieithyddol**

Mae gallu dwyieithog disgyblion yn dibynnu ar eu lefelau cyswllt a'r ddwy iaith,ac felly mae'n bryd cynyddu dilyniant yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a sefydlu continuwm dysgu iaith gynnar sy'n symud plant tuag at rugldr llwyr. Golyga hyn symud o'r gwahaniad presennol o wersi Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith ac addysgu cyfrwng Cymraeg. Cafwyd cynnydd eisoes o ran ysgolion yn gweithredu rhaglenni astudiaeth ail-iaith, a dylid nodi cyfraniad gwerthfawr Athrawon Bro i'r broses hon. Fodd bynnag, teimlwn ei bod bellach yn bryd adolygu targedau cwricwlaidd ac effeithiolrwydd y rhaglenni astudiaeth hyn o ran cyrhaeddiad disgyblion.

- Dylid ystyried dulliau posibl newydd o godi safonau ail-iaith a gwella effeithiolrwydd addysgol yr amser sy'n cael ei wario ar hyn o bryd ar gyflenwi'r rhaglen hon mewn ysgolion.

- Mae angen adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol o safbwynt rhaglenni astudio'r Gymraeg .
- Mae'n amserol gofyn i ACCAC adolygu'r rhaglenni astudio ac edrych ar ffyrdd mwy

creadigol a thraws-gwricwlaidd o gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd i blant Cymru. Mae'r Bwrdd yn gofyn yn ffurfiol i'r Cynulliad gynnal adolygiad o'r Gymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol , a hynny o ran y Rhaglenni Astudio a'r lefelau cyrhaeddiad ar gyfer y Gymraeg fel ail iaith ac iaith gyntaf.

- Mae angen cytuno ar dargedau newydd ar gyfer cyrhaeddiad – a hynny ar lefel genedlaethol – ac mae angen mwy o arweiniad i athrawon o ran methodolegau ystafell ddosbarth. Dylid ystyried dull mwy creadigol o addysgu dwyieithog ar draws y cwricwlwm i'r diben hwn.
- Er mwyn cefnogi ein hysgolion bydd angen darparu mwy o gefnogaeth fesul y Gwasanaethau Cynnal Addysg.

Mae sicrhau gwell trosglwyddo rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn darged nad yw neb eto wedi mynd i'r afael ag ef ar lefel genedlaethol, gan gynnwys y cysylltiadau addysgol a chymdeithasol sy'n cynnal y trosglwyddo hwn. Yn amlwg felly, mae parhad y ddarpariaeth ieithyddol a chyfrwng addysg rhwng CA2 a CA3 yn bwysig , ac mae'r Bwrdd eisoes wedi cyllido rhai prosiectau pontio trwy gyfrwng ei grantiau i gynorthwyo Athrawon Bro yng Nghymru. Serch hynny, mae angen mentrau i hyrwyddo cwricwlwm diwylliannol Cymreig ymhob agwedd a chyfnod o addysg yng Nghymru.

**Y Cyfnod rhwng 3 a 7 oed**

Bu'n nod gan y Bwrdd ers amser hir i sicrhau continuwm iaith sy'n caniatáu mynediad a chynnydd pan yw'n briodol i'r disgybl, ac un nad yw'n gosod terfynau mor bendant rhwng dwy raglen astudiaeth benodol. I'r perwyl hwn dylai cyfnod sylfaen statudol o 3 oed i 7 oed sy'n integreiddio "Canlyniadau Dymunol" â'r Cwricwlwm Cenedlaethol gael ei gynllunio er mwyn rhoi pob cyfle posibl i bob ddisgybl fod yn ddwyieithog. Wrth ystyried newidiadau i'r cyfnod hwn dylid:

- Llunio cwricwlwm sy'n llai rhagnodol er mwyn rhoi mwy o amser yn y dosbarth ar gyfer sgiliau caffael dwyieithrwydd mewn amgylchedd traws-gwricwlaidd .
- Anelu at "drosglwyddo di-dor" sy'n caniatáu i bob plentyn gael mynediad i ddarpariaeth gwbl ddwyieithog ar draws yr holl gwricwlwm
- Buddsoddi'n uwch mewn hyfforddi athrawon dwyieithog a'r agenda datblygu proffesiynol barhaus er mwyn hybu'r amcan o genedl ddwyieithog.
- Lleihau'r bwlch rhwng disgyblion iaith gyntaf ac ail iaith, ac felly caniatáu continuwm dwyieithog hwylus er mwyn i'r disgyblion fedru symud yn eu blaen yn ôl eu gallu a dewis eu rhieni.
- Sicrhau mwy o ddwyieithrwydd wrth addysgu'r disgyblion hynny y mae eu rhieni wedi penderfynu eu hanfon i ysgolion cyfrwng Saesneg, a hynny er mwyn iddynt ennill sgiliau dwyieithog cynharach sy'n eu paratoi'n well ar gyfer addysg ddwyieithog yn ddiweddarach pe baent yn penderfynu newid o ddarpariaeth cyfrwng Saesneg i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Ar hyn o bryd, mae newid o'r fath yn anodd iawn oherwydd mae’n bosibl nad oes gan y disgyblion sy’n dymuno gwneud hynny ddigon o sgiliau dwyieithog "caffaeliad cynnar"- mae ymchwil ryngwladol yn cydnabod gwerth y sgiliau hyn i brosesau meddwl a dysgu plentyn.Cred y Bwrdd mai dyma’r ffordd resymegol ymlaen, oherwydd byddai hefyd yn paratoi’r ffordd ar gyfer parhad a datblygiad tebyg ar gyfer sgiliau’r disgyblion wrth iddynt symud i addysg uwchradd a thu hwnt.

**Deddfwriaeth a Rheoliadau**

Wrth fynd ati i wella’r continuwm iaith o safbwynt yr holl bynciau a addysgir ac a brofir/arholir yn allanol trwy gyfrwng y Gymraeg, mae deddfwriaeth addysg gyfredol yn ei gwneud hi’n gymhleth i ysgolion sy’n dymuno ychwanegu at y nifer o bynciau a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg, a nodwyd eisoes nad oes "tir canol" i’r rhaglenni astudiaeth ar gyfer Cymraeg iaith-gyntaf ac ail-iaith fel y gall disgybl ail-iaith drosglwyddo’n rhwydd i'r rhaglen iaith-gyntaf. Mae’r sefyllfa hon yn amharu ar gynnydd ac yn creu rhwystredigaethau.

- Rhaid creu continuwm iaith ar frys lle mae’r raddfa’r ail-iaith yn disgyn yn raddol i’r raddfa iaith-gyntaf.
- Dylid adolygu rheoliadau’r Cynulliad ynghylch nifer y pynciau y gellir eu hamrywio’n flynyddol o ran cyfrwng eu haddysgu.

**Diffinio ysgolion**

Diffiniodd y Ddeddf Addysg 1988 Ysgolion Cyfwng Cymraeg fel:

"Rheiny lle mae mwy na hanner y pynciau canlynol yn cael eu dysgu yn rhannol neu yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg-

(a) Addysg Grefyddol, a

(b) y pynciau hynny ar wahân i’r Gymraeg a Saesneg sy’n bynciau sylfaen yng nghyd destun y disgyblion yn yr ysgol".

Mae’r diffiniad hwn wedi’i gynnwys yn ogystal yn Neddf Addysg 1996.

Gwyddom mai mewn Ysgolion Cymraeg mae’r Gymraeg yn Bwnc Craidd, yn debyg i Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, a chaiff pob disgybl rhwng 5 ac 16 oed wersi Cymraeg.Mewn ysgolion nad ydynt yn Ysgolion Cymraeg, dysgir y Gymraeg fel Pwnc Sylfaen hyd at 16 oed. Serch y diffiniad hwn, nid yw’r sefyllfa yn glir am sawl rheswm:

- Ceir problemau o safbwynt diffinio ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog oherwydd y

nifer helaeth o gategorïau gwahanol y mae'r 22 AALL yn eu defnyddio wrth ddiffinio ysgolion yn ôl cyfrwng yr addysgu.

- Nid y diffiniad uchod yw'r unig un o bell ffordd o ran addysg Gymraeg a dwyieithog, a cheir ysgolion dwyieithog, ysgolion naturiol Gymraeg a nifer o gategorïau eraill sy'n cynnwys codau ieithyddol megis A,AB, C ac yn y blaen.
- Ceir problem o ran yr un mathau o ysgolion -hynny yw o ran cyfrwng yr addysgu - yn derbyn diffiniadau a theitlau gwahanol mewn gwahanol AALL, a cheir canrannau gwahanol o'r'cwricwlwm yn cael ei dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws Cymru.
- Ceir anghysondebau a phroblemau yn y sector uwchradd o ran nifer y pynciau yr addysgir yn Gymraeg, yn enwedig o ran Gwyddoniaeth a Mathemateg.
- Dylid cofio fod llawer o ysgolion yn gweithredu fel ysgolion dwyieithog naturiol, ond nid ydynt yn ysgolion penodedig cyfrwng Cymraeg at bwrpasau ystadegol y Cynulliad.
- Rhaid ymdrin â'r broblem o ddiffyg diffiniadau clir ynghylch natur ysgolion dwyieithog a chyfrwng Cymraeg cyn symud ymlaen i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn effeithiol. Rhaid wrth un casgliad o ddiffiniadau y mae pob un AALl yn medru defnyddio ac y mae'r cyhoedd a'r cyrff addysgol yn ei deall yn hawdd.

<u>Oherwydd y ffactorau uchod, nid yw data'r Cynulliad yn adlewyrchu addysg ddwyieithog Cymru yn glir, a hynny oherwydd problemau diffiniadau.Mae angen ymchwil i hyn ar frys, a phenderfyniad polisi cynnar gan y Cynulliad.</u>

**Anghenion addysgol Arbennig**

Wrth ddarparu ar gyfer plant ag anghenion arbennig, rydym i gyd yn cydnabod y dylid anelu at adnabod angen ac ymyrryd yn gynnar. Wrth addasu cwricwlwm i ddiwallu anghenion disgyblion, mae ar Gymru angen y mecanweithiau, yr adnoddau a'r personél priodol i allu cynorthwyo disgyblion o deuluoedd Cymraeg a dwyieithog, a'r rhai y mae eu rhieni yn dymuno iddynt dderbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Bwrdd adroddiad ar Anghenion Addysgol Arbennig a gafodd ei noddi'n rhannol gan y Cynulliad, sef "Cydnabod Angen", ac awgrymir ynddo y dylid defnyddio hwn i fwydo'r strategaeth ar gyfer darpariaeth AAA yng Nghymru. Mae ei argymhellion nid yn unig yn adnabod meysydd allweddol ar gyfer datblygu, ond maent hefyd yn ceisio hybu mwy o gydweithio rhwng asiantaethau yn y maes hwn. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn amlinellu sawl enghraifft o arfer dda ledled Cymru.

- Un o brif gasgliadau adroddiad AAA y Bwrdd yw bod yna barodrwydd gan bron pawb i rannu arferion da, ond ceir ychydig iawn o fforymau/ cyfleoedd i hwyluso'r prosesau angenrheidiol. Hoffem weld hyn yn swyddogaeth gydgysylltiol allweddol i'r Cynulliad, ac rydym yn croesawu ei nod datganedig i sefydlu set o ddata cyffredin ar gyfer AAA y gellid ei defnyddio gan yr holl wasanaethau.
- O ran y Côd Ymarfer newydd AAA, mae yna gyfle i gael gwared ar yr amrywiaeth

sylweddol rhwng awdurdodau o safbwynt pan fo angen rhoi datganiad i ddisgybl, a sefydlu Côd sy'n hwyluso cydraddoldeb darpariaeth o safbwynt ieithyddol.
- Croesewir y nod o sefydlu Tribiwnlys cwbl ddwyieithog AAA ar gyfer Cymru a hawliau Anabledd Addysgol yng Nghymru.

**Adnoddau a Deunyddiau**

Ar hyn o bryd ceir sefyllfa lle nad oes digon o ddeunyddiau dysgu ac adnoddau TCHG cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws ein system addysg yng Nghymru.

Rhaid rhoi cymorth gweithredol a digon o gyllid ar gyfer patrymau gwaith ar draws y sectorau a'r awdurdodau addysg – a hynny mewn amgylchedd dwyieithog a chyfannol. .

- Mae TGCh yn trawsnewid addysgu a dysgu, ac mae'n bryd datblygu mwy o raglenni a meddalwedd TGCh dwyieithog/cyfrwng Cymraeg. Mae'r Bwrdd yn teimlo fod angen cydraddoldeb mewn darpariaeth o'r fath, a bod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a myfyrwyr Cymraeg ar hyn o bryd yn bell y tu ôl i'r ddarpariaeth TGCh sydd ar gael trwy gyfrwng y Saesneg.
- Cefnogir y cysyniad o atgyfnerthu rôl dysgu o bell a TGCh a'r defnydd ohonynt, ond er mwyn gwneud hyn bydd yn rhaid wrth ddatblygu mwy o feddalwedd ac adnoddau TGCh dwyieithog.
- Mae amserol i gynnal adolygiad o fframwaith comisiynu deunyddiau ACCAC, a hynny o safbwynt maes galwedigaethol yn ogystal â deunyddiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer ysgolion.

**Addysg ôl 16 a Chymraeg i Oedolion**

Mae'r galw am ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yn cynyddu'n gyflym. Roedd 21,011 wedi cofrestru ar gyrsiau ym 2001, mewn cymhariaeth â 13,330 ym 1994. Mae'r cynnydd hwn yn dangos yn glir fod ar Gymru angen llwybr strwythuredig cenedlaethol ar gyfer dysgu ar bob lefel, ac un sy'n derbyn cyllid digonol i ddiwallu galw cynyddol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyllid wedi'i dargedu'n benodol at hyfforddi tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion, ac mae hyn wedi golygu diffyg darpariaeth ariannol ddigonol mewn sawl maes. Mae'r Bwrdd yn croesawu bwriad y Cynulliad i gofrestru mwy o bobl ar gyfer AU ac i ehangu mynediad i AU. Nodwn fod angen cysoni gofynion buddsoddi AU cyfrwng Cymraeg a dwyieithog â strategaeth ar gyfer hyfforddi darlithwyr mewn methodoleg ddwyieithog, a darparu, ar eu cyfer hwy a'u myfyrwyr, adnoddau cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel (yn seiliedig ar gyhoeddiadau a TGCh) ac isadeileddau sy'n caniatáu sefydliadau i rannu arbenigedd ac adnoddau.

Ym maes addysg ôl-16 pwysleisiwn yr angen am fwy o gyrsiau ôl-16 a chyfleoedd galwedigaethol dwyieithog a chyfrwng Cymraeg, mwy o barhad o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg bellach ac addysg uwch a mwy o gyrsiau'n cael eu haddysgu naill ai

drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy ddefnyddio methodolegau addysgu dwyieithog. I’r perwyl hyn dylid ystyried y datblygiadau canlynol:

- Buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar bob lefel er mwyn creu Cymru ddwyieithog, a gofalu bod y ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg i Oedolion wrth wraidd unrhyw fuddsoddiad o'r fath;
- Sefydlu canolfan ddysgu rithiol sy’n datblygu ac yn hyrwyddo dysgu gydol oes cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Dylai hyn gynnwys darpariaeth blynyddoedd cynnar, ysgolion, darpariaeth AAA, AB,AU, dysgu galwedigaethol, dysgu’n seiliedig ar y gymuned, Cymraeg i Oedolion a dysgu gydol oes;
- Rhedeg Canolfan rithiol yn ganolog gan gorff megis ELWA, a sefydlu safleoedd dibynnol rhanbarthol. Gallai hyn ddod yn rhan o agenda cynllunio cymunedol y Cynulliad a gallai hefyd gynnwys ymchwil hanfodol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, dwyieithrwydd a Chymraeg i Oedolion. Gallai'r adnodd hwn weithio ar y cyd â Mentrau Iaith i fapio’r angen ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y gweithle. .
- Atgyfnerthu cysylltiadau rhwng ELWA, y darparwyr â’r Brifysgol i Ddiwydiant, Coleg Digidol Cymru, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a phartneriaid allweddol eraill.
- Marchnata a chynyddu darpariaeth AB/ ac AU cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.Er enghraifft, gan ystyried mai dim ond 2,900 o fyfyrwyr wnaeth gofrestru gyda sefydliadau AU yng Nghymru yn 2000 ac a dderbyniodd unrhyw addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a chan ystyried bod hanner y rhain wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau hyfforddi athrawon, mae'n amlwg fod yna angen i farchnata a chynyddu darpariaeth AU drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai sefydlu canolfan ddysgu rithiol gynorthwyo’r broses hon.
- Sicrhau bod FFORWM a’r CCAUC yn cynorthwyo cyrff llywodraethu i ddefnyddio arferion da yn eu holl bolisïau adnoddau dynol, gan gynnwys polisïau dwyieithrwydd. Mae angen strwythur datblygiad parhaus i athrawon a darlithwyr, a gellid diwygio rhaglen GEST i gynnwys datblygiad proffesiynol ar gyfer darlithwyr AB, gyda chyllideb yn cael ei neilltuo ar gyfer datblygiad cyfrwng Cymraeg/dwyieithog.
- Sicrhau cydweithrediad rhwng dau Gyngor ELWA o dan yr enw brand newydd, yn enwedig yn nhermau gwaith posibl ym maes darpariaeth Cymraeg i Oedolion, AB ac AU. Mae angen i fethodolegau cyllido gael eu symleiddio o dan y corff newydd a rhaid ehangu mynediad.
- Llunio ffocws dwyieithog mwy strategol ar fentrau Gyrfaoedd Cymru, Cyfrifon Dysgu Unigol a Sgiliau Allweddol .Gellid defnyddio’r Gronfa Defnyddio Gwybodaeth, gyda chymorth cyllid Amcan Un, ar gyfer darpariaeth mewn sawl maes dwyieithog, yn arbennig ar gyfer darpariaeth alwedigaethol a Chymraeg i Oedolion.

**Hyfforddi Athrawon a Methodoleg Addysgu dwyieithog AB/AU**

Os yw datblygiad parhaus i gynnwys ein holl athrawon a’n darlithwyr, rhaid i ni feithrin eu sgiliau â digon o amser a chyllid.Mae data’r Cynulliad yn dangos bod 28,700 o athrawon yn gweithio yng Nghymru yn 2001, ac er ein bod yn sylweddoli fod hyn yn 400 yn fwy na’r flwyddyn flaenorol, dymunwn ailadrodd y pwynt a wnaed mewn sawl papur i’r

Swyddfa Gymreig a’r Cynulliad , sef ei bod yn ymddangos nad oes unrhyw ddull clir yng Nghymru ar gyfer mapio’r cyflenwad a’r galw am athrawon cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar bob lefel o addysg.Mae cysylltiad y Bwrdd ag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dangos eu bod yn wynebu anawsterau o ran penodi athrawon addas ar gyfer nifer o bynciau.Dylid ystyried y camau canlynol:

- Creu strategaeth i recriwtio a hyfforddi athrawon cyfrwng Cymraeg. Nid yw’r ffaith bod y cyfrifoldeb dros farchnata addysgu fel gyrfa yn dal i orwedd gyda’r AHA yn Lloegr yn gwneud dim i helpu’r sefyllfa hon. Mae’n amlwg fod y dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd gan swyddogion y Cynulliad yn annigonol i asesu’r galw am athrawon cyfrwng Cymraeg. Os yw canran y swyddi gwag yng Nghymru yn isel, sef "0.4%", pam mae ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn enwedig ar lefel uwchradd, yn wynebu problemau?
- Annog mwy o gydweithio partneriaethol.Rhaid nodi nad yw Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon bob amser yn cynnwys modiwlau ar fethodolegau addysgu dwyieithog, a dylid annog mwy o bartneriaethau rhwng sefydliadau hyfforddi er mwyn rhannu arbenigedd i’r perwyl hwn. Mae i hyn oblygiadau cyllido a goblygiadau TGCh.
- Datblygu cyrsiau datblygiad proffesiynol dwyieithog ar gyfer y sectorau AB/AU. Mae angen y cyrsiau hyn ar y cyflenwyr AB/AU sy’n dymuno dysgu sut i ddefnyddio methodolegau addysgu dwyieithog. Os yw nodau’r Cynulliad o ran dwyieithrwydd i'w gwireddu, rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth allweddol. Dylai ELWA ymwneud â chynllunio a chyllido’r cyfryw hyfforddiant.

**Casgliad**

O ystyried y pwyntiau uchod, byddai’r Bwrdd yn dymuno cael y cyfle i’w trafod gyda’r Cynulliad yn y dyfodol agos, a hynny mewn cyd-destun ehangach ei dogfennaeth strategol.